General Optical Council

Beth i'w ddisgwyl gan eich optegydd

Ynghylch y llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi beth allwch ei ddisgwyl pan fyddwch yn ymweld â'ch optegydd. Hefyd mae'n cynnwys gwybodaeth am ein Cod Ymddygiad. Gallwch ddarllen ein cod llawn yn www.optical.org/en/our_work/Standards/Standards_in_conduct.cfm, neu ofyn i ni am gopi papur drwy ffonio 020 7580 3898 (dewiswch opsiwn 4)

Amdanom ni

Ni sy'n rheoleiddio optegwyr, myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn optegwyr a busnesau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd mae rhyw 23,500 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol ar ein cofrestri. Daw ein pwerau o Ddeddf Optegwyr 1989.

Beth yw ystyr y geiriau gwahanol?

Optometrydd yw'r person sy'n profi'ch golwg. Gallan nhw ffitio a chyflenwi sbectol neu lensys cyffwrdd hefyd.

Optegydd dosbarthu yw'r person sy'n ffitio ac yn cyflenwi eich sbectol a lensys cyffwrdd. Yn y llyfryn hwn rydym yn disgrifio optometryddion ac optegwyr dosbarthu fel 'optegwyr'. Rydym yn disgrifio pobl sydd wedi cofrestru gyda ni yn 'aelodau cofrestredig'. Rydym yn defnyddio'r geiriau hyn yn y llyfryn yma i'w wneud yn gliriach i chi.

Beth ydych chi'n ei wneud?

Rydym yn amddiffyn y cyhoedd drwy:

- Bennu safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol;
- Cymeradwyo'r cymwysterau sy'n arwain at gofrestriad gyda'r GOC;
- Cyhoeddi cofrestr o optegwyr dosbarthu, optometryddion, myfyrwyr a busnesau optegol yn y DU; ac
- Ymchwilio a gweithredu ar bryderon nad yw aelod cofrestredig yn addas i:
  - ymarfer;
  - hyfforddi'n optegydd; neu
  - gynnal busnes a gofrestrir gyda ni.

Beth yw ystyr ‘addas i ymarfer’?

Os disgrifir optegydd fel bod yn ‘addas i ymarfer’, mae hyn yn golygu ei fod yn bodloni’r safonau o ran iechyd, cymeriad, gwybodaeth, sgil ac ymddygiad sy’n angenrheidiol iddo wneud ei swydd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Beth gallaf ei ddisgwyl gan fy optegydd?

Rhaid i optegwyr sy’n dymuno cofrestru gyda ni fodloni rhai safonau gwybodaeth, sgil ac ymddygiad. Rhaid i optegwyr fodloni safonau mewn dau faes sef ‘cymhwysedd’ ac ‘ymddygiad’.

‘Cymhwysedd’ – gwybodaeth a sgil
Mae pedair dogfen sy’n esbonio’r lefel o wybodaeth a sgil proffesiynol sy’n ofynnol i aelodau cofrestredig. Mae’r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan yn www.optical.org.

‘Ymddygiad’ - ymddygiad proffesiynol, personol ac onest
Mae’r safonau ymddygiad yn cael eu galw’n ‘Codau Ymddygiad’

Rhaid i bob optegydd ymddwyn yn broffesiynol ac yn barchus ym mhob rhan o’r gwaith a’u bywyd personol. Mae ein Cod Ymddygiad yn dweud bod rhaid i chi allu ymddiried yn eich optegydd am eich gofal. Rhaid i’ch optegydd bob amser eich trin chi’n deg a rhaid iddo allu esbonio i chi’r camau mae wedi eu cymryd a’r penderfyniadau mae wedi eu gwneud am eich gofal llygaid.



Rhaid i'ch optegydd

- wneud eich gofal chi yn flaenoriaeth;
- bod yn gwrtais;
- parchu eich urddas a phreifatrwydd;
- gwrando arnoch chi a pharchu eich barn;
- rhoi gwybodaeth glir i chi ac esbonio'r triniaethau sydd ar gael;
- cytuno â chi ar unrhyw weithred neu driniaeth mae'n ei gwneud;
- cadw nodiadau clir a manwl am y driniaeth rydych chi wedi ei chael;
- eich cynnwys chi mewn penderfyniadau am eich gofal;
- cadw ei wybodaeth a sgiliau proffesiynol yn gyfredol;
- gwneud yn si r ei fod ond yn gwneud pethau mae wedi hyfforddi i'w gwneud;
- bod yn onest gyda chi;
- bod yn ddibynadwy yn ei fywyd proffesiynol a phersonol;
- cadw gwybodaeth amdanoch chi a'ch gofal yn gyfrinachol;
- gwneud yn si r nad yw ei farn bersonol yn effeithio ar y gofal a gewch chi;
- eich amddiffyn chi rhag unrhyw risgiau;
- adrodd unrhyw bryderon sydd ganddo amdano ei hun, neu am gydweithiwr, nad yw efallai'n addas i ymarfer;
- peidio byth â chamddefnyddio ei safle proffesiynol;
- trefnu yswiriant er mwyn gallu talu unrhyw iawndal i chi y mae gennych hawl i'w gael petai pethau'n mynd o chwith gyda'r gofal llygaid a gewch chi; a
- pheidio byth ag ymddwyn mewn ffordd a allai niweidio'ch hyder ynddo fel optegydd, neu yn y proffesiwn optegol yn ei grynswth

Os na fydd aelod cofrestredig yn bodloni'r safonau hyn ac os cawn ni nad yw'n addas i ymarfer, gallwn ei atal rhag gweithio yn y DU neu gallwn ni gyfyngu'r gwaith mae'n cael ei wneud.

Beth allaf ei wneud os na fydd fy optegydd yn ymddwyn fel hyn?

Os ydych chi'n dymuno cwyno am un o'n haelodau cofrestredig, gallwch chi ddysgu sut mae gwneud yn ein llyfryn 'Sut i gwyno am optegydd'. Gallwch chi gael copi o'r llyfryn hwn o'n gwefan yn www.optical.org neu drwy ffonio 020 7580 3898 (dewiswch opsiwn dau). Os bydd un o'n haelodau cofrestredig yn methu bodloni'n safonau a heb fod yn addas i ymarfer am eu bod yn methu gwneud eu swydd yn ddiogel ac yn effeithiol, gallwn eu hatal rhag gweithio yn y DU. Neu, gallwn ni gyfyngu'r math o waith maen nhw'n cael ei wneud.

Cysylltwch â ni

General Optical Council
41 Harley Street
London
W1G 8DJ
Ffôn: 020 7580 3898
Ffacs: 020 7307 3939
E-bost: goc@optical.org
Gwefan: www.optical.org

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol
Am help gyda materion fel cael ad-daliad am sbectol ddiffygiol, ffoniwch y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) ar 0844 800 5071 neu ewch i www.opticalcomplaints.co.uk.

Cyngor ar Bopeth
Os nad ydych chi'n si r wrth bwy i gwyno, neu os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, ffoniwch Cyngor ar Bopeth ar 020 7833 2181 neu ewch i www.citizensadvice.org.uk.

Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu
I gwyno am hysbysebu ffug neu gamarweiniol, ffoniwch yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ar 020 7492 2222 neu ewch i www.asa.org.uk.

Oedd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol i chi?

Hoffen ni wybod eich barn am y llyfryn gwybodaeth hwn. Ydy'r wybodaeth wedi bod yn ddefnyddiol? Oes unrhyw adrannau sydd angen mwy o esboniad yn eich barn chi? Sut allen ni ei wella? Rhowch eich barn i ni drwy e-bostio communications@optical.org

Allwch chi gael
y llyfryn hwn yn
Saesneg drwy fynd i
www.optical.org